

JONES, OWEN ('Meudwy Môn,; 1806 - 1889), gweinidog a llenor

Enw: Owen Jones
Ffugenw: Meudwy Môn
Dyddiad geni: 1806
Dyddiad marw: 1889
Priod: Ellen Jones (née Rowlands)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Enid Pierce Roberts

Ganwyd yn y Gaerwen Bach, Llanfihangel Ysgeifiog, Môn, 15 Gorffennaf 1806. Bu farw ei rieni pan oedd ef yn ieuanc iawn a magwyd ef gan ei fodryb Elizabeth, gwraig Morgan Williams, barcer, Llangefni. Pan oedd yn chwech oed anfonwyd ef i ysgol y pentre, ac wrth ei weld yn dysgu mor dda talodd Rice Roberts, Plas Llangefni, am addysg iddo yn ysgol Thomas Jones, Llangefni, a phan agorwyd yr Ysgol Genedlaethol symudwyd ef i honno. Cynigiodd boneddigion yr ardal addysg ychwanegol iddo er mwyn gwneud clerigwr ohono ond gwrthododd ei fodryb, ac yn fuan wedyn tynnwyd ef o'r ysgol. Ar ôl hyn bu'n brentis o saer, yn was fferm, yn athro teuluol mewn gwahanol gartrefi, ac yn cadw ysgol yn Llanddona, Llangoed, a Penygarnedd. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid oddeutu 1827. Areithiai hefyd dros y Gymdeithas Beiblau a gwnaethpwyd ef yn oruchwyliwr cynorthwyol i'r Gymdeithas, swydd a ddaliodd am dros 40 mlynedd. Priododd Ellen, ferch Richard Rowlands, Bryn Mawr, Llangoed.

Gadawodd Fôn yn 1833 a mynd i'r Wyddgrug i gywiro proflenni a darllen llawysgrifau i'r cyhoeddwr, [John ac Evan Lloyd](#). Y flwyddyn ganlynol penodwyd ef yn 'cashier' i lofa Plas yr Argoed. Ordeiniwyd ef a [Roger Edwards](#) yng Nghymdeithasfa'r Bala, 8 Mehefin 1842, a bu'r ddau yn gweinidogaethu yn yr Wyddgrug. Yma y dechreuodd 'Meudwy Môn' ymddiddori yn y mudiad dirwest, ac ef oedd un o'i arloeswyr yng Ngogledd Cymru. Derbyniodd alwad oddi wrth eglwysi Methodistiaidd Manceinion, 1844, ond oherwydd anghydfod rhoes y gorau i'w eglwysi yn 1856 a derbyn swydd goruchwyliwr Cyngrair y Deyrnas Gyfunol dros Ogledd Cymru. Arhosodd ym Manceinion hyd 1866 pryd yr aeth yn weinidog i Landudno. Fodd bynnag ymddiswyddodd o'i eglwys, 1868-9, am fod gwaith bugeiliol yn mynd â gormod o'i amser a'r cyflog yn rhy fach i fyw arno heb lenyddiaeth. O hyn hyd ddiwedd ei oes llenyddiaeth oedd ei brif waith a'i gynhafiaeth, er ei fod yn dal i lafurio dros y mudiad dirwest a'r Gymdeithas Beiblau. Yn 1866 gwnaethpwyd tysteb gyhoeddus o £50 iddo. Bu farw 11 Hydref 1889, a chladdwyd ef ym mynwent S. Tudno.

Golygodd bedwar misolyn byrhoedlog: *Y Cynniweirydd*, 1834, a droes yn *Newyddiadur Hanesyddol*, 1835; *Y Cymedrolwr*, 1835; *Y Cerbyd Dirwestol*, 1837-8; *Y Bugail*, 1859. Cyhoeddodd amryw lyfrau ac erthyglau a golygodd ddau waith mawr, *Cymru, yn Hanesyddol, Parthedegol a Bywgraffyddol*, 1875, a *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*, 1875. Eithr ychydig o ddim

byd gwreiddiol a ysgrifennodd - cyfieithu, casglu, a chyfaddasu a wnâi, heb unwaith draethu ei farn ei hun na phwysu a mesur tystiolaeth. Y mae ei rwysgedd geiryddol a'i ddiffyg cynildeb yn enghraifft o arddull rodresgar, Seisnigaidd y 19eg ganrif ar ei gwaethaf.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1889, 240

Cymru (O.M.E.), iii, 9

Y Geninen, 1890, 243, (G yf Dewi) 33

Y Traethodydd, 1893, 28; 1901, 401; 1902, 161; 1907, 373

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Owen Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [49013914](#)

Wikidata: [Q13130554](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

